

Y Carped Hud

Roderick Hunt


Alex Brychta



Pïod


DRAKE





Roedd carped Cad wedi'i rwygo.
Roedd twll mawr ynddo.
Dangosodd Cad e i Dad ond dywedodd e,
"Fedrwn ni ddim fforddio un newydd.
Mae'n ddrwg 'da fi, Cad."

'Mond Manion



Aeth Cad a Dids i siopa gyda Dad.
Roedd Dad eisiau prynu cas llyfrau
i ystafell Onw.
Gwelson nhw un y tu allan i'r siop hen bethau.
"Ca i hwn i Onw," meddai Dad.



Cafodd Cad hyd i hen garped
yng nghefn y siop.
"Fe wnâi hwn y tro i f'ystafell i,"
meddai.
Gofynnodd i Dad a allai hi ei gael.



Edrychodd Dad ar yr hen garped.
“Dwyt ti ddim eisiau hwnna,” meddai.
“Mae’n hen ac yn fudr.”
“Ond rwy’n ei hoffi,” meddai Cad. “Plis ga i e?”
Felly dywedodd Dad, “Iawn, os nad yw’n
rhy ddrud.”




Curodd Cad y carped.
Roedd yn llawn llwch a baw.
“Feddyliais i ddim y gallai carped fod mor llychlyd,”
meddai. “Pwy oedd y perchennog diwetha?
Rhywun fyddai byth yn sychu ’i draed!”



Rhoddodd Cad a Mam siampw
i'r carped.

“Dydw i ddim yn credu ei fod wedi cael
siampw erioed o'r blaen,” meddai Cad.
“Mae'n edrych yn well yn barod.”




Roedd y carped yn edrych yn hardd.

“Mae'n garped neis,” meddai Cad.

“Welwch chi?

Mae'n eithaf hen,


efallai ei fod yn werthfawr.”



Roedd Cad yn ei hystafell wely yn darllen llyfr.
Daeth Onw i mewn ac eisteddon nhw
ar garped newydd Cad.
Roedd Onw yn dysgu darllen
ac roedd e eisiau darllen i Cad.



Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.
Roedd antur arall wedi dechrau.
Y tro hwn roedd Cad ac Onw
ar garped hud.
“Antur o fath newydd yw hon,” meddai Cad.
“Mae'r carped yn dod gyda ni.”



Aeth y carped yn gyflym iawn.

“O help,” meddai Onw.

“Gobeithio na chwmpwn ni.”

Hedfanodd y carped ymlaen ac ymlaen.

Hedfanodd dros anialdiroedd a mynyddoedd.

“I ble rydyn ni’n mynd?” gofynnodd Cad.

O’r diwedd, arafodd y carped.


Edrychodd Cad ac Onw dros yr ymyl.

Roedd y carped yn hedfan uwchben tref.

“Welais i erioed dref fel hon,”

meddai Cad.

“Ydyn ni’n mynd i lanio?”



Ond wnaeth y carped ddim glanio.
Yn lle hynny, aeth yn arafach ac yn arafach.
Yna arhosodd ger ffenestr
ar ben tŵr.
“Pam rydyn ni wedi aros fan hyn?” gofynnodd Onw.



Edrychodd Cad ac Onw drwy'r ffenestr.
Gwelson nhw fachgen bach.
Roedd yn crio ac edrychai'n ddigalon iawn.
“Rhaid ei fod e'n garcharor,” meddai Cad.




Dringodd Cad ac Onw i mewn
i'r ystafell fach.

Pan welodd y bachgen nhw,
neidiodd mewn syndod.

“Pam rwyd ti dan glo yn y tŵr hwn?” gofynnodd Cad.

“Beth rwyd ti wedi ei wneud?”



“Fi yw brenin go iawn y wlad hon,”

meddai'r bachgen yn drist,

“ond mae fy ewythr drwg
wedi fy nghloi yn y tŵr hwn.




Pan own i'n frenin roedd pawb yn hapus.
Addewais i reoli'r wlad yn ddoeth ac yn dda.
Ond roedd fy ewythr yn genfigennus.
Roedd e am fod yn frenin yn fy lle.




Un diwrnod ymosododd fy ewythr
a'i filwyr ar y palas.
Dalion nhw fi a'm carcharu.
Dihangodd fy mam.
Rhedodd i ffwrdd i'r mynyddoedd
ac aeth â'i byddin gyda hi.



Dyn drwg yw fy ewythr.
Mae'n greulon ac yn farus.
Mae'n gwneud i bobl dalu arian iddo
hyd yn oed os ydyn nhw'n dlawd.
Os na fedran nhw dalu, mae'n eu carcharu.
Does neb yn hapus.




Bob dydd mae pobl yn gofyn i fy mam
a'i byddin ymosod ar y ddinas.
Wnaiff hi ddim rhoi'r gorchymyn i ymosod am ei bod
yn ofni y bydd fy ewythr yn gwneud niwed imi.
Rwy'n wystl yn y palas hwn."




“Rhaid inni dy ryddhau di,” meddai Cad.
“Aiff y carped â ni at dy fam.”
Helpodd Cad ac Onw y bachgen
i ddringo drwy'r ffenestr.
Yna eisteddodd pawb ar y carped.


“Sut wnawn ni iddo hedfan?” gofynnodd Onw.
“Sut fydd e'n gwybod i ble i fynd â ni?”
“Gwna ddymuniad,” meddai Cad. “Yna aiff
i ble bynnag rydyn ni am fynd.”
Gwnaethon nhw ddymuniad, a sgrialodd
y carped i ffwrdd.



Gwibiodd y carped tua'r mynyddoedd.
O'r diwedd, dechreuodd arafu.
"Gobeithio ei fod yn gwybod sut i lanio," meddai Onw.
"Mae'n ffordd bell i lawr."




Glaniodd y carped yn ddiogel.
Pan welodd y fam ei mab,
roedd hi wedi syfrdanu.
Edrychodd ar y carped
ac edrychodd ar Cad ac Onw.
"Mae fy mab yn ddiogel!" meddai. "Diolch."



Galwodd mam y bachgen ar ei milwyr i gyd.
Dywedodd wrthyn nhw fod ei mab yn rhydd.
“Nawr ei fod yn ddiogel,
gallwn ymosod ar y ddinas,” meddai.
“Bydd fy mab yn frenin unwaith eto.”

“Hwrê!” bloeddiodd y milwyr.
Daethon nhw i lawr o'r mynyddoedd
a gorymdeithio i'r ddinas.
Roedd brwydr fawr.
Gwyliodd Cad, Onw a'r bachgen y frwydr
o le diogel.




Ar ddiwedd y frwydr roedd pawb yn falch
mai'r bachgen oedd y brenin eto.
Ond doedd y bachgen ddim yn hapus.
“Ble mae fy ewythr?” gofynnodd.
“Rhaid ei gosbi am beth wnaeth e.”




Gwelodd Cad ac Onw rywun yn dianc.
Yr ewythr drwg oedd e.
“O na!” meddai Onw. “Mae e'n dianc.
Sut gallwn ni ei rwystro?”
Roedd y carped hud gan Cad.
“Tybed...” meddyliodd.



Gwnaeth Cad ddymuniad a hedfanodd
y carped hud ar ôl yr ewythr drwg.
Marchogodd hwnnw mor gyflym ag y medrai
ond roedd y carped yn gyflymach.
“Rhwystrwch e!” galwodd Cad.



Tynnodd y carped yr ewythr drwg
oddi ar ei geffyl.
Lapiodd ei hun amdano
ac yna ei rolïo'n ôl i'r ddinas.
“Help! Help!” galwodd yr ewythr drwg.
“Tynnwch y carped 'ma oddi arna i!”



Aeth Cad ac Onw â'r ewythr drwg
at y bachgen.


“Diolch,” meddai. “Tro fy ewythr yw hi
i fynd i'r carchar. Nawr galla i fod
yn frenin da a gofalu am fy mhobl eto.”

Rhoddodd y bachgen anrheg i Cad ac Onw.
Camel tegan hardd oedd e.

“Diolch,” medden nhw.

Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.

“Mae'n bryd inni fynd,” meddai Cad, “ond
awn ni â'n carped, os cawn ni.”



Aeth yr allwedd hud â Cad ac Onw adre.
“Am antur!” meddai Onw. “Os dymuna i’n galed,
aiff y carped â fi i’r ysgol bob dydd?”
“Go brin!” meddai Cad.

Y Carped Hud



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 8

Stori gan
Roderick Hunt

Lluniau gan
Alex Brychta

Addasiad Cymraeg gan
Juli Paschalis

Pïod Cam 8
Y drefn ddarllen a
gymeradwyir:

Yr Herwgipwyr
Antur Lychlynaidd
Y Peiriant Enfysau
Y Carped Hud
Diwrnod yn Llundain
Antur Fictoraidd



Pïod

Pïod Cam 9
Y drefn ddarllen a
gymeradwyir:

Yr Ynys Fach Werdd
Castell y Ddrycin
Supermwls
Y Frenhines Sbwriel
Chwilio
Cadw'n Fyw

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1990
Ⓢ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
Ⓢ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-317-2



9 790861 743178

ISBN 0 86 174317 2

DRAKE